

Y Ditectif Amser OED ADEILADAU

gan Angharad Williams CBHC



Faint ydy eich hoed?

Rydym ni yn gwybod ein hoedran ein hun gan ein bod wedi clywed ein rhieni yn sôn am pryd cawsom ni ein geni, a ph'run bynnag, mae'r dyddiad wedi ei gofnodi'n hollol glir ar dystysgrif ein genedigaeth.

Beth am oed adeilad felly?

Nid mor hawdd yw darganfod oed adeiladau mewn trefi a phentrefi neu allan yng nghanol y wlad, ond os edrychwch chi o gwmpas eich hardal leol, efallai y gallwch ddod o hyd i gliwiau gwerthfawr.

Fedrwch **chi** feddwl am rai? Nodwch eich syniadau isod.

.....

.....

.....

Gadewch i ni yn awr edrych ar ddau ddull posibl o ddarganfod oedran adeiladau.

Beth am chwilio a oes dyddiad yn rhywle ar yr adeilad ei hun?

Mae dyddiad codi rhai adeiladau i'w weld wedi ei naddu ar garreg uwchben y drws neu rywle arall ar y muriau.

Weithiau cewch fod cerrig o'r fath wedi eu haddurno â gwaith celf diddorol yn ogystal â'r dyddiad ei hun.

Dyma rai enghreifftiau:



Stabl Cwmcoednerth, Ceredigion



Gelliargwellt Uchaf, Morgannwg



Castell March, Gwynedd

Fedrwch chi ddod o hyd i gerrig dyddiad yn eich hardal chi?

Gallwn wedyn ddefnyddio'r dyddiadau hyn i ddarganfod beth yw oed tebygol yr adeilad.

Pa mor hen yw'r enghreifftiau yn y tabl isod?
Ychwanegwch unrhyw rai yr ydych chi wedi eu casglu.

Enw'r tŷ/adeilad	Dyddiad y garreg	Dyddiad eleni	Oed yr adeilad
Stabl Cwmcoednerth	1761		
Gelliargwellt Uchaf	1778		
Castell March	1628		
Rhiwlas (Meirionnydd)	1574		
Plas Bodafon (Môn)	1584		
Castell March	1628		

Mae Richard Suggett o Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn gweithio ar restr o gerrig dyddiad ar adeiladau yng Nghymru.

Gallwch chi ei helpu trwy yrru ato fanylion unrhyw rai y dewch ar eu traws – trwy e-bost neu mewn llythyr:

CHCC / NMRW
 Plas Crug,
 Aberystwyth,
 Ceredigion
 SY23 1NJ.

e-bost: chc.cymru@cbhc.gov.uk

Does dim dyddiad ar lawer o adeiladau ac mae rhaid mynd ati i ddarganfod eu hoed trwy ddulliau eraill.

Un ffordd yw trwy amcangyfrif oed y pren a ddefnyddiwyd yn yr adeilad. Coed-ddyddio (*tree-ring dating*) neu dendrocronoleg (*dendrochronology*) yw'r enw am hyn.



Bob blwyddyn, mae coed fel derw yn tyfu haen newydd o bren o dan y rhisgl – dyma'r cylch coed. Mae dendrocronoleg yn defnyddio'r cylchoedd hyn i benderfynu pa mor hen yw'r pren. Mae'r dendrocronolegydd yn cymryd samplau o brif drawstiau a physt yr hen adeilad â dril ac yn rhoi prawf arno mewn labordy. Bydd y gwyddonydd yn medru dweud ym mha flwyddyn ac hyd yn oed weithiau ym mha dymor y torrwyd y goeden. O'r dyddiad hwnnw, cawn wybod pryd codwyd yr adeilad.

Daniel Miles, dendrocronolegydd, yn cymryd samplau o drawstiau canoloesol â dril.

Tŷ Aberconwy, yn nhref gaerog Conwy, yw un o'r tai hynaf yng Nghymru. Cafodd ei adeiladu â phren a dorrwyd yng ngwanwyn 1420. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, cyfrifwch oedran y tŷ ei hun.



Tŷ Aberconwy, Conwy

Coflein

Coflein yw cronfa ar-lein Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru (CHCC). Ynddi, mae manylion miloedd ar filoedd o adeiladau a safleoedd archaeolegol ar dir ac o dan y môr, ynghyd â mynegai i'r lluniadau,

y llawysgrifiau a'r ffotograffau sydd yng nghasgliadau archifol helaeth CHCC.

Defnyddiwch ein gwefan www.cbhc.gov.uk i chwilio ein basdata neu i lawr-lwytho lluniau. Hefyd mae rhai o'n hawyrluniau ar gael ar wefan *Casglu'r Tlysau* www.tlysau.org.uk

Y Comisiwn Brenhinol yw prif gorff y llywodraeth sy'n gyfrifol am arolygu a chofnodi adeiladau hanesyddol a safleoedd archaeolegol Cymru. Mae'n gofalu am Gofnod Henebion Cymru sy'n gallu darparu deunydd ar gyfer eich hysgol chi: ffotograffau, awyrluniau, mapiau a darluniau o'ch hardal leol.

Hoffech chi dderbyn deunydd neu drefnu ymweliad?

Cysylltwch ag Angharad Williams ein Swyddog Addysg.
Ffôn: 01970 621248
e-bost: angharad.williams@cbhc.gov.uk

neu

Cysylltwch â'n gwasanaeth ymholiadau
Ffôn: 01970 621200
e-bost: chc.cymru@cbhc.gov.uk

Gellir hefyd gwneud ymholiadau trwy ein gwefan: www.cbhc.gov.uk

CBHC
Plas Crug,
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1NJ

Lluniau gyda chaniatad © Y Goron:CBHC